

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Hysbysiad Preifatrwydd
CYNLLUN DISWYDDIAD GWIRFODDOL
AC YMDDEOL YN GYNNAR

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Da ta Cyffredinol a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Rebecca Walsh – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Creu:	25 Mai 2018
Adran â Chyfrifoldeb:	Adnoddau Dynol a Datblygu
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Fran Donnelly
Cyfeiriad:	CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu eich data personol ar ôl i ni dderbyn eich mynegiant o ddiddordeb a phan rydym ni'n penderfynu a yw eich cais cyflawn ar gyfer ymddeol yn gynnwys neu ddiswyddiad gwirfoddol wedi ei dderbyn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw a defnyddio'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu. Mae'n ofynnol ein bod ni, o dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn eich hysbysu o'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg, os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau fod copi wedi ei ddiweddarau o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â Pholisi Safonau Preifatrwydd a'r hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys rhagor o fanylion manwl am ein prosesu data a gellir cael mynediad ato drwy ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i sut fydd yr Adran Adnoddau Dynol yn defnyddio eich data personol ar ôl i ni dderbyn eich mynegiant o ddiddordeb a phenderfynu a yw eich cais o dan y cynllun yn llwyddiannus. Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i'r cynnig o welliant a oedd yn rhedeg o 18 Hydref tan 16 Tachwedd 2018. Mae'r cynllun diswyddo gwirfoddol wedi cael ei wneud ar gael i'r holl gyflogeion sy'n mynegi diddordeb ac sydd â thros 2 flynedd o wasanaeth parhaus. Mae'r cynllun ymddeol yn gynnwys ar gael i aelodau Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol sy'n 55 mlwydd oed, o leiaf. Mae'r pecyn ymddeol yn gynnwys / diswyddo gwirfoddol yn cynnwys gwelliant o 100% i'r taliad diswyddiad statudol; neu daliad diswyddo sy'n hafal â 6 mis o gyflog sy'n cynnwys taliad diswyddo statudol, pa bynnag ganlyniad sydd â'r canlyniad o daliad mwyaf.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr ac sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau a gellir gweld y manylion amdanynt ar ein gwefan. Pan

fyddwn yn cyfeirio at yr adran fan hyn, byddwn yn cyfeirio at y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n gyfrifol am brosesu eich data a fydd yn glir i chi pan fyddwch yn cael mynediad at y gwasanaeth hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i holl staff y Cyngor o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, sy'n cynnwys uwch swyddogion, prif swyddogion, penaethiaid gwasanaeth, arweinwyr tîm a swyddogion iau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r swyddog gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk
Ffôn: 01685 725000

2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH CHI

Gallwn gasglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel a ganlyn:

Data adnabod a chysylltu a fydd yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a rhyw.

Data ariannol fel manylion cyflog a'ch graddfa gyflog a'ch manylion taliad diswyddiad gwirfoddol/ymddeoliad.

- ☒ Data cyflogaeth a fydd yn cynnwys teitl eich swydd ac oriau gwaith. Eich safle oddi fewn i'r sefydliad a manylion dyletswyddau eich swydd a'ch oriau gwaith (37 awr ayyb).

Data geowagle sy'n berthnasol i ddata eich lleoliad neu yn yr achos hwn ble y mae eich lleoliad corfforol oddi fewn i'r sefydliad neu ble y disgwylir i chi deithio at ddibenion sy'n berthnasol i'r gwaith.

Data ffordd o fyw fel gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch ethnigrwydd, hil, iaith ac iaith ddewisol.

Data iechyd sy'n cynnwys data sy'n berthnasol i'ch iechyd corfforol ac iechyd meddwl cyfredol. Dim ond pan fydd y Tîm Rheoli Corfforaethol yn dynodi cyfrifoldebau newydd i aelodau staff presennol y caiff hyn ei asesu.

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gasglu'r data hwn amdanoch chi yn adran 3 yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

3. SUT YR YDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA PERSONOL

Rydym yn casglu'ch gwybodaeth drwy ddefnyddio ffurflen Holiadur Mynegi Diddordeb a Throsglwyddo Gwybodaeth. Ar ôl i'r Adran dderbyn y ffurflen hon byd Pennaeth Adnoddau Dynol

yn asesu eich cais. Caiff y ffurflenni eu cadw ar fformat copi caled a'u trawsgyfeirio gan eich adran. Yr Adran Gyfrifeg sy'n gyfrifol am gyfrifo eich ffigurau disgwylidig sy'n seiliedig ar eich oed ac un ai hyd eich gwasanaeth neu chwe mis o gyflog (pa bynnag un yw'r uchaf). Ar ôl derbyn eich ffurflen bydd yr Adran yn cysylltu â chi i'ch hysbysu o'r ffigur taliad disgwylidig.

Dim ond pan fydd deddfwriaeth diogelu data yn ein caniatáu ni i wneud hynny y byddwn yn defnyddio eich data personol. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau a osodwyd allan o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a ble y bo'n berthnasol Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

Pan fydd angen i ni ryddhau ein cyfrifoldebau fel y'u gosodwyd gan y contract a ddechreuwyd rhyngom ni â chi sef yn yr achos hwn yw eich contract cyflogaeth.

Pan fydd angen i ni gydymffurfio â'n goblygiadau cyfreithiol o dan y cyfreithiau canlynol:

Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996

Deddf Taliadau Dileu Swydd 1965

Deddf Contractau Cyflogaeth 1963

Codau Ymarfer ACAS

Cyfraith gyffredin berthnasol sy'n ymwneud â dileu swydd a dod â chyflogaeth i ben

Pan fo'i angen er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol fel ad-drefnu Llywodraeth Leol ac mewn ymateb i Gytundeb Setlo Llywodraeth Cymru yn sgil cyfyngiadau cyllidebol.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn prosesu eich data personol pan fo'n angenrheidiol er mwyn ein buddion cyfreithiol (neu fuddion trydydd parti) a'ch buddion chi ac nad yw hawliau sylfaenol yn trechu'r buddion hynny.

4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol ar draws Adnoddau Dynol a Datblygiad er mwyn darparu'r gefnogaeth sy'n ofynnol gennych. Byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ar draws Adrannau eraill y Cyngor gan gynnwys:

Y Gyflogres a Phensiynau

Cyfrifeg

Newid Busnes

TGCh

Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethiant

Tîm Rheoli Corfforaethol

Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r Adran rannu eich gwybodaeth bersonol â chyrrff allanol a restrir isod:

Unison

GMB

Unite

Dim ond â'r Undebau Llafur cydnabyddedig y byddwn yn rhannu eich data personol ble y mae'r

gyfraith yn caniatáu hynny. Dim ond gwybodaeth aelod y byddwn yn ei throsglwyddo i Undeb Llafur; os nad ydych yn aelod o Undeb Llafur, ni fyddwn yn rhannu eich data gyda nhw.

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os byddwn yn gwneud hynny byddwn yn eich hysbysu cyn gynted â phosibl a gallwch ddisgwyl yr un raddfa o ddiogelwch mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyhyd ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y'i casglwyd ar eu cyfer yn unig, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd yn ôl. Caiff y wybodaeth bersonol a gasglwyd yn unol â'r prosesu a fanylir yn yr hysbysiad hwn ei chadw am 2 flynedd ar ôl i'r cyflogai adael cyflogaeth y Cyngor.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

6. SUT FYDDWN NI'N CADW'CH GWYBODAETH YN DDIOGEL

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch priodol i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu rhag bod mynediad ati mewn modd diawdurdod, neu ei haddasu neu ddatgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion hynny sydd ag angen busnes i wybod. Dim ond yn ôl ein cyfarwyddyd ni y byddan nhw'n prosesu eich gwybodaeth bersonol ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrifoldeb.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau yn eu lle i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorcyfraith o ran diogelu a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o dorcyfraith honedig pan fydd yn gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

7. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi caiff yr hawliau hyn eu manylu yn yr hysbysrwydd preifatrwydd cyflawn. Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2^{il} Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 029 2067 8400

8. MANYLION PELLACH

Os ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu eich data personol yn cynnwys diogelu data, cadw data a gwybodaeth bellach am ein sail gyfreithiol i brosesu, mynnwch weld ein polisi preifatrwydd cyflawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol o wefan y Swyddog Comisiynu Gwybodaeth, www.ico.org.uk.